Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

Bagloriaeth Cymru

Cymwysterau Prif Ddysgu

Llwybrau Dysgu
Learning Pathways
14–19

CYMHWYSTER
BAGLORIAETH CYMRU | WELSH BACCALAUREATE QUALIFICATION

CBAC
WJEC

www.bagloriaethcymru.org.uk

Beth yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru?

Cyflwynwyd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) i gynnig profiadau ehangach i bobl ifanc na'r rhaglenni dysgu traddodiadol er mwyn bod yn addas i'w hamrywiol anghenion. Gellir astudio'r cymhwyster yn Gymraeg neu'n Saesneg, neu gyfuniad o'r ddwy iaith.

Mae dwy ran i'r CBC. Mae'r rhan gyntaf yn cynnwys 'Opsiynau' a ddewiswyd o gyrsiau cymeradwy ar y lefel briodol, megis TGAU, Safon Uwch Gyfrannol/Uwch, Cymwysterau Galwedigaethol, ac erbyn hyn, Cymwysterau Prif Ddysgu a Phrosiect. Yr ail ran yw'r 'Rhaglen Graidd' o astudiaethau datblygiad personol a restrir yng nghanol y diagram isod. Nid oes arholiadau ychwanegol – seilir yr asesiadau ar y dystiolaeth bydd y dysgwyr yn ei chasglu wrth gyflawni eu gweithgareddau. Bydd y gweithgareddau hyn yn helpu i feithrin a gwella eu dealltwriaeth a'u perfformiad yn eu Hopsiynau.

Mae'r CBC yn cynnig profiad dysgu mwy crwn. Mae'n helpu dysgwyr i gyflawni mwy, yn sicrhau eu bod yn fwy parod ar gyfer addysg uwch a'r byd gwaith, ac i fod yn ddinasyddion mwy gweithgar.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch *Gwybod y Ffeithiau … Esboniad o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru* (ISBN 9780750445566) neu gallwch dadlwytho gopi o www.bagloriaethcymru.org.uk



Beth yw Cymwysterau Prif Ddysgu?

Mae Cymwysterau Prif Ddysgu yn gymwysterau newydd a luniwyd mewn partneriaeth â chyflogwyr a phrifysgolion. Byddan nhw'n rhoi cipolwg i ddysgwyr ar yr hyn sy'n cael ei gynnwys mewn maes galwedigaethol heb ymrwymo'r dysgwyr i yrfa yn y maes hwnnw. Ceir cyfleoedd i brofi gwahanol arddulliau dysgu mewn gwahanol amgylcheddau fel ysgol, coleg a gweithle, gyda phwyslais ar weithgareddau ymarferol.

Gellir defnyddio Cymwysterau Prif Ddysgu ynghyd â, neu yn lle, cymwysterau cymeradwy eraill fel rhan o ofynion yr Opsiynau o fewn cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Maen nhw ar gael ar Lefel 1 (Sylfaenol), Lefel 2 (Canolradd) a Lefel 3 (Uwch) y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC). Mae'r dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau Prif Ddysgu hefyd yn gorfod dilyn y Cymhwyster Prosiect ar lefel briodol.

Mae Cymwysterau Prif Ddysgu ar gael yn y meysydd canlynol.

1. Technoleg Gwybodaeth
2. Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
3. Peirianneg
4. Creadigol a Chyfryngau
5. Busnes, Gweinyddiaeth a Chyllid
6. Astudiaethau Amgylcheddol a Diwydiannau'r Tir
7. Astudiaethau Gwallt a Harddwch
8. Lletygarwch
9. Gweithgynhyrchu a Dylunio Cynnyrch
10. Cymdeithas, Iechyd a Datblygiad
11. Teithio a Thwristiaeth
12. Gwasanaethau Cyhoeddus
13. Chwaraeon a Hamdden Heini
14. Busnes Manwerthu

Beth yw'r Cymwysterau Prosiect?

Mae'r Cymwysterau Prosiect Sylfaen (Lefel 1), Prosiect Uwch (Lefel 2) a'r Prosiect Estynedig (Lefel 3) yn gymwysterau annibynnol sy'n gadael i'r dysgwyr ddewis eu pynciau eu hunain a meithrin sgiliau i reoli a chyflwyno eu dysgu.

Gall y prosiect fod yn gysylltiedig â'r Prif Ddysgu neu'n ymwneud â maes o ddiddordeb mwy personol. Mae'r dysgwyr yn cael cynnig ffordd newydd o astudio a gallan nhw arddangos eu dysg drwy ddull o'u dewis. Er enghraifft:

- prosiect dylunio – e.e. adeiladu model o bont
- prosiect ysgrifenedig – e.e. ymchwilio i fater hanesyddol, gwleidyddol neu ddiwylliannol, sgript ar gyfer ffilm neu ddrama
- astudiaeth maes – ymchwiliad yn seiliedig ar ddata, e.e. mewn cyd-destun daearyddol
- gwaith wedi'i gyflwyno ar gyfrwng – e.e. CD-ROM neu DVD
- creu darn o gelf neu arteffact – e.e. cerflun neu ffotograff
- gweithgaredd yn seiliedig ar berfformiad – e.e. rhan mewn cynhyrchiad drama neu ffilm.

Bydd y Cymhwyster Prosiect yn meithrin sgiliau megis dysgu'n annibynnol, rheoli prosiect, meddwl dros eich hun, cynllunio, ymchwilio, datrys problemau a sgiliau cyflwyno. Mae Opsiynau Prif Ddysgu a Phrosiect o fewn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn darparu'r wybodaeth pwnc manwl a'r sgiliau ymarferol mae busnesau a sefydliadau addysg uwch yn dweud yn gyson bod eu hangen arnyn nhw.

1. Prif Ddysgu mewn Technoleg Gwybodaeth

Bydd Prif Ddysgu mewn Technoleg Gwybodaeth (TG) yn rhoi golwg ymarferol ar sut mae technoleg yn chwarae rhan allweddol mewn busnes. Bydd y dysgwr yn darganfod beth mae gwahanol bobl yn y diwydiant yn ei wneud – yn ogystal â sut i reoli prosiectau, datblygu gwefannau, rheoli rhwydweithiau a chyflenwi cymorth TG.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- busnes – sut mae sefydliadau yn gweithio a'r rhan gall technoleg ei chwarae
- pobl – sut i weithio'n dda gyda phobl eraill
- technoleg – sut i greu atebion sy'n ymwneud â thechnoleg, sut i ddylunio a datblygu cynnyrch aml-gyfrwng ar gyfer cynulleidfa benodol.

"Mae sgiliau proffesiynol mewn technoleg yn dyngedfennol i weithlu yfory a bydd yn sicrhau bod Cymru'n gallu manteisio'n llawn ar gyfleoedd economi wybodaeth."

Ronan Miles, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cydweithio – BT, Cadeirydd Fforwm e-sgiliau Cyflogwyr Cymru

"Mae'r cwricwlwm yn cynnig ffordd newydd sy'n canolbwyntio ar y defnydd a wneir o dechnoleg mewn busnes ac ar yr ystod ehangaf o sgiliau mae eu hangen ar weithwyr proffesiynol TG. Mae'n cysylltu dysgwyr â'r sialensiau busnes gall technoleg eu datrys yn y byd go iawn. Rwy'n credu bydd gan ddysgwyr sy'n dilyn y cwrs astudio hwn sylfaen wych a fydd, rwy'n gobeithio, yn eu hannog i barhau â'u hastudiaeth TG mewn addysg uwch cyn camu i'r gweithle digidol."

Yr Athro Chris Price, Pennaeth Adran Cyfrifiadureg, Prifysgol Aberystwyth

2. Prif Ddysgu mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Bydd Prif Ddysgu mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yn rhoi cyfleoedd i gaffael sgiliau gwerthfawr ac i ddysgu am ystod eang o wahanol ddiwydiannau fel pensaernïaeth, gwaith dur strwythurol, peintio ac addurno, gwydro a thirfesur. Mae'r ystod o bynciau yn dwyn y diwydiannau cysylltiedig hyn at ei gilydd, fel bod y dysgwr yn deall sut maen nhw'n cysylltu â'i gilydd.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- dylunio'r amgylchedd adeiledig – ymchwilio i sut dylunnir ac adeiladir yr amgylchedd adeiledig a sut mae'n effeithio ar bobl a chymunedau
- creu'r amgylchedd adeiledig – edrych ar beth mae gwahanol bobl yn y diwydiant yn ei wneud ac yn helpu'r dysgwr i ddatblygu ystod o sgiliau a gwybodaeth sy'n angenrheidiol i greu'r amgylchedd adeiledig
- gwerthfawrogi a defnyddio'r amgylchedd adeiledig – dadansoddi'r angen am reolaeth dda a gwaith cynnal parhaus, a deall pwysigrwydd dyluniad da, crefft a gwaith tîm.

"Mewn diwydiant sy'n brwydro am gyfan o bobl dalentog, mae angen gwirioneddol i recriwtio cyflogeion newydd a ganddyn nhw y sgiliau cywir. Bydd y cymhwyster Prif Ddysgu yn sicrhau y caiff pobl ifanc olwg ar y byd gwaith a chael y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth mae eu hangen arnyn nhw ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch a chyflogaeth. Bydd gan unigolyn ifanc â chymhwyster Bagloriaeth Cymru addysg gynhwysfawr, gan ei fod wedi cyrraedd y safon ofynnol mewn Sgiliau Craidd a phynciau cysylltiedig â'r sector. Mae dysgu ymarferol mewn amgylchedd ymarferol yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm."

Mike Davis BSc (Anrhydedd), Rheolwr Hyfforddi Rhanbarthol, Lovell

3. Prif Ddysgu mewn Peirianneg

Bydd Prif Ddysgu mewn Peirianneg yn rhoi cyfleoedd i gaffael sgiliau ymarferol a chysyniadau sydd y tu ôl i beirianneg a sut maen nhw'n effeithio ar y byd modern. Cyflwynir y dysgwr i egwyddorion allweddol peirianneg fel dylunio, defnyddiau, systemau electronig, gwaith cynnal a chadw, a gweithgynhyrchu.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- y byd peirianyddol – yn edrych ar bwysigrwydd peirianneg yn y byd modern
- darganfod technoleg peirianneg – yn cyflwyno egwyddorion sylfaenol peirianneg fel dylunio, defnyddiau, systemau electroneg, gwaith cynnal a chadw, a gweithgynhyrchu
- peirianneg yn y dyfodol – yn edrych ar beth sy'n gwneud i bethau newydd lwyddo, sut mae defnyddiau newydd yn cyfrannu at ddylunio, a sut i ddatblygu a lansio syniadau newydd; mae'r rhan hon o'r cwrs yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwr ymchwilio i agweddau creadigol.

"Mae Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA) Cymru wedi croesawu'r cyfle i ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu Cymwysterau Prif Ddysgu mewn Peirianneg ac Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yng Nghymru. Bydd mewnbwn y sector yn y ffordd hon yn sicrhau cydnabyddiaeth i'r diwydiant ac, yn bwysicach, cyfranogiad y diwydiant wrth weithredu diwydiannau adeiladu a pheirianneg cynhwysol yn y dyfodol."

Rhodri-Gwynn Jones B.Sc. C.Eng MICE, Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd, CECA (Cymru) Cyf.

4. Prif Ddysgu mewn Creadigol a'r Cyfryngau

Bydd Prif Ddysgu mewn Creadigol a'r Cyfryngau yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwr feistroli sgiliau sy'n ganolog i rolau creadigol yn y gweithle. Bydd y dysgwr yn dysgu sut i feddwl, holi, ymchwilio, creu a chyfathrebu, yn ogystal â sut i ddod â syniadau'n fyw drwy wneud, perfformio a chreu.

Wrth astudio am y cymhwyster hwn, bydd y dysgwr yn ymdrin â phynciau deinamig a chyffrous, gan gynnwys celf weledol 2-D a 3-D, dylunio graffig, dylunio cynhyrchion, ffasiwn, tectstilau, hysbysebu, drama, dawns, cerddoriaeth, ffilm, teledu, radio, cyfryngau rhyngweithiol, animeiddio, gemau cyfrifiadurol, delweddu ffotograffig ac ysgrifennu creadigol.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- meddwl a gweithio'n greadigol – ffyrdd o ymchwilio, arbrofi gyda a datblygu syniadau, sgiliau a thechnegau
- egwyddorion, prosesau ac ymarfer – y sgiliau, technegau a phrosesau i droi syniadau'r dysgwyr yn realiti
- busnesau creadigol a menter – dealltwriaeth o sefyllfaoedd go iawn a'r sgiliau sydd angen ar y dysgwr i lwyddo yn y diwydiant.

"Mae'r Cymhwyster Prif Ddysgu mewn Creadigol a'r Cyfryngau yn cynnig profiad dysgu sy'n berthnasol i waith i bobl ifanc ac yn datblygu'r sgiliau a glustnodwyd gan gyflogwyr fel y rhai allweddol ar gyfer gwaith yn y dyfodol, tra ar yr un pryd yn rhoi addysg eang iddyn nhw sy'n cadw eu dewisiadau'n agored. Dyma gymhwyster cyffrous i bobl ifanc yng Nghymru."

John Geraint, Cyfarwyddwr Creadigol, Green Bay Media, a Chadeirydd Skillset Cymru

5. Prif Ddysgu mewn Busnes, Gweinyddiaeth a Chyllid

Bydd Prif Ddysgu mewn Busnes, Gweinyddiaeth a Chyllid yn rhoi profiad i ddysgwyr o sefydlu a rhedeg eu busnes eu hunain, gan werthu cynnyrch maen nhw wedi'i greu. Byddan nhw'n dysgu sut i ymdopi â newid, sut mae parhau'n gystadleuol, a byddan nhw'n canfod sut mae ffactorau allanol fel technolegau newydd, tueddiadau defnyddwyr, materion amgylcheddol a globaleiddio yn gallu effeithio ar fusnes. Ymysg y sgiliau eraill bydd cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol, dinasyddiaeth, gweithio fel tîm, gweinyddiaeth, ywmchwil a dadansoddi, a rhoi cyflwyniadau.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- menter busnes – datblygu syniadau, gwneud ymchwil a hyrwyddo cynhyrchion neu wasanaethau
- gweinyddiaeth busnes – dysgu am weinyddiaeth busnes a'i bwysigrwydd i sefydliadau
- cyllid – dysgu'r sgiliau a'r wybodaeth mae eu hangen arnoch i reoli cyllid personol a chyllid busnes.

"Bydd Prif Ddysgu Bagloriaeth Cymru yn sicrhau bod sgiliau cyflogadwyedd allweddol, a nodwyd fel rhai hanfodol i gyflogwyr busnes, gweinyddiaeth a chyllid, yn cael eu cyflawni ar y cyd â sgiliau trosglwyddadwy sy'n berthnasol i amrywiaeth eang o sectorau ar gyfer dechrau gweithio neu symud i addysg uwch."

Stephen Crane, Rheolwr 14–19, Gwasanaethau Cyllid Cyngor Sgiliau

6. Prif Ddysgu mewn Astudiaethau Amgylcheddol a Diwydiannau'r Tir

Bydd Prif Ddysgu mewn Astudiaethau Amgylcheddol a Diwydiannau'r Tir yn darparu profiad uniongyrchol o'r cyfleoedd, y galwedigaethau a'r llwybrau gyrfaol mae'r sector yn eu cynnig.

Bydd y dysgwyr yn cael profiad o weithio gan ystyried iechyd a diogelwch, a datblygu sgiliau gwyddonol, sgiliau cyfathrebu a sgiliau rheoli. Byddan nhw'n datblygu sgiliau entrepreneuraidd a chreadigol (sy'n berthnasol i redeg eu busnes eu hunain) a byddan nhw'n gwneud gwaith maes i astudio gwahanol gynefinoedd.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- amgylcheddau cynhyrchiol ac amgylcheddau gwaith – sy'n edrych ar adnoddau cyfyngedig ein hamgylchedd naturiol, ein heffaith ni arno, sut mae'r amgylchedd yn dylanwadu arnon ni a sut mae'r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio
- planhigion ac anifeiliaid – sy'n edrych ar y ffordd rydyn ni'n defnyddio planhigion at ddibenion masnach, adloniant a chadwraeth, ac anifeiliaid ar gyfer cynhyrchu (bwyd), hamdden a gwaith neu gwmnïaeth
- datblygu'r amgylchedd cynaliadwy – sy'n edrych ar yr effaith a gawn ar ein hamgylchedd a pha mor bwysig yw defnyddio arferion 'gwyrdd' sy'n ystyriol o'r amgylchedd.

"Mae arnon ni angen pobl sy'n gyflawn, yn gymwysedig ac yn wybodus yn ein diwydiant. Bydd Prif Ddysgu mewn Astudiaethau Amgylcheddol a Diwydiannau'r Tir yn ffordd dda i bobl ifanc gael y sgiliau hynny – yr wyddoniaeth, y dysgu, y sgiliau gwaith tîm a'r sgiliau technegol i sicrhau eu bod yn barod am waith, fel eu bod nhw'n ymgeiswyr cryf iawn pan fyddan nhw'n chwilio am waith."

Gordon McGlone, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Gaerloyw

7. Prif Ddysgu mewn Astudiaethau Gwallt a Harddwch

Bydd Prif Ddysgu mewn Gwallt a Harddwch yn ymdrin â materion sy'n dylanwadu ar y sector heddiw ac yn ei yrru. Bydd yn edrych ar sut mae'r sector yn gweithio a pha sgiliau sydd angen i weithio ynddo. Bydd y dysgwyr yn astudio'r chwe diwydiant sy'n rhan o'r sector gwallt a harddwch: trin gwallt, gwaith barbwr, trin gwallt/gwaith barbwr Affricanaidd Caribïaidd, therapi harddwch, therapi sba a gwasanaethau ewinedd. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng pob un o'r elfennau a diwydiannau eraill.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- cyflogadwyedd – sy'n edrych ar yr amglychedd byd-eang y mae busnesau gwallt a harddwch yn gweithredu ynddo, ynghyd â chyflwyniad personol, hylendid a lles; dysgir egwyddorion triniaethau a rheolweithiau sylfaenol gwallt, harddwch ac ewinedd, ynghyd â gwahaniaethau hanesyddol a diwylliannol
- ymdrin â chwsmeriaid – dysgu sgiliau cyfathrebu, yn amrywio o ymgynghoriadau gyda chleientiad i reoli disgwyliadau, yn ogystal â hyrwyddo a gwerthu drwy argymell; cyflwynir y systemau a'r prosesau busnes sylfaenol a geir yn nerbynfa salon
- creadigrwydd ac arloesi – ymchwilio i sut mae modd mynegi personoliaeth, diwylliant, hil, rhyw, ffasiwn a dylanwadau crefyddol drwy steil gwallt, gofal croen a thechnegau coluro; dysgir am bwysigrwydd arloesi wrth gynllunio cynnyrch gwallt a harddwch.

"Rwy wedi siarad â chyflogwyr o'r sector gwallt a harddwch, ac allan nhw ddim aros i'r Gymhwyster Brif Ddysgu gael ei gyflwyno. Mae'r sector hwn yn amlochrog. Mae'n entrepreneuraidd, yn fywiog, yn greadigol ac yn gyffrous; ac eto ceir prinder sgiliau mor uchel â phedwar deg y cant mewn meysydd megis y farchnad sba a hamdden. Bydd yn rhoi cyfle i ddysgwyr gael teimlad gwirio neddol o bob un o'r chwe diwydiant yn y sector gwallt a harddwch, a darganfod pa mor wahanol ydyw i'r stereoteipiau hirsefydlog."

Gill Morris, Hyfforddiant GMT, Cyfarwyddwr Habia

8. Prif Ddysgu mewn Lletygarwch

Bydd Prif Ddysgu mewn Lletygarwch yn ystyried y diwydiant lletygarwch yn ei ehangder, sut mae'n gweithio a'i bwysigrwydd i economi'r DU a bywydau pob dydd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth da i gwsmeriaid (gyda chwsmeriaid a chydweithwyr) yn ogystal â deddfwriaeth sylfaenol ac iechyd a diogelwch.

Bydd y dysgwyr yn cael profiad o'r gwahanol adrannau sy'n rhan o fusnes lletygarwch, yn ogystal â'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer y diwydiant, gan gynnwys gweithio fel tîm, meddwl yn greadigol a hunanreoli.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- y diwydiant lletygarwch – yn cyflwyno diwydiant lletygarwch y DU a darparu gwasanaeth i gwsmeriaid
- pobl yn y diwydiant lletygarwch – datblygu'r sgiliau i weithio yn y diwydiant lletygarwch
- gweithrediadau'r diwydiant lletygarwch – paratoi a gweinyddu bwyd a diodydd
- busnes a chyllid yn y diwydiant lletygarwch – sy'n ymdrin ag arferion busnes a chyllid pwysig yn ogystal â chwmpasu meysydd fel adnoddau dynol, cyfleusterau blaen y tŷ, a rheoli digwyddiau; efallai bydd y dysgwyr yn edrych ar gynlluniau cymhellion teyrngarwch a chynlluniau busnes, gwasanaeth i gwsmeriaid a'i effaith ar fusnes.

"Rwy'n meddwl bod y trosolwg o'r hyn bydd y Prif Ddysgu'n ei gwmpasu yn ymddangos yn berffaith ar bob lefel. Yr her fydd cydlynu sut fydd e'n cael ei gyflawni'n ddi-dor gan y sefydliadau amrywiol, ond rwy'n meddwl bod amrywiaeth y bobl fydd yn cyflawni'r sgiliau sydd i'w dysgu yn ei wneud yn gymhwyster defnyddiol a gwerthfawr. Rwy'n arbennig o hoff o'r syniad bydd pobl ifanc 14 i 19 oed yn dysgu pethau gellir eu defnyddio fel sgiliau bywyd – gan gynyddu eu hyder wrth integreiddio a chyflwyno gofal cwsmer, sgiliau mae'n amlwg fydd yn ddefnyddiol iddyn nhw yn y diwydiant."

June Harvey, Rheolwraig Adnoddau Dynol a Hyfforddiant, Bartlett Mitchell

9. Prif Ddysgu mewn Gweithgynhyrchu a Dylunio Cynnyrch

Bydd Prif Ddysgu mewn Gweithgynhyrchu a Dylunio Cynnyrch yn gyfle i gwmpasu pum is-sector: gweithgynhyrchu bwyd a diod; peirianneg; ffasiwn a thecstilau; cemegau, deunyddiau fferyllol a pholymerau; deunyddiau dodrefn, printio ac adeiladau. Bydd y dysgwyr yn ystyried y DU a'i lle mewn gweithgynhyrchu byd-eang, yn ogystal â'r amrywiaeth lawn o weithgareddau, o ddylunio, caffael a rheoli adnoddau dynol i gyllid, marchnata a materion fel cynaliadwyedd a globaleiddio.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- dylunio cynnyrch a gwyddoniaeth defnyddiau – ystyried y broses o weithgynhyrchu cynnyrch, o brynu defnydd crai i werthu'r cynnyrch gorffenedig
- busnes a menter – rhoi cyflwyniad i weithgynhyrchu fel busnes
- systemau cynhyrchu – rhoi cipolwg ar sgiliau, technegau a phrosesau i wireddu eich syniadau.

"Mae'r Cymhwyster Prif Ddysgu mewn Gweithgynhyrchu a Dylunio Cynnyrch yn cynnig llwybr amgen i bobl ifanc gael mynediad i'r diwydiant gweithgynhyrchu. Oherwydd y modd darperir y Cymhwyster Prif Ddysgu mewn Gweithgynhyrchu a Dylunio Cynnyrch – gyda phrofiad ymarferol yn ychwanegu at waith damcaniaethol yr ystafell ddosbarth – mae'r dysgwyr yn fwy tebygol o ddeall y modd mae'r diwydiant yn gweithio a chael disgwyliadau realistig o'r hyn sy'n digwydd yn y gweithle. Maen nhw felly'n fwy tebygol o ddod yn gyflogeion tymor hir, a fydd yn helpu cwmnïau i arbed arian ar gostau recriwtio, gan bydd hi'n fwy tebygol bydd y bobl gywir yn cael eu recriwtio ar y cynnig cyntaf."

Ken Wilson, Rheolwr Materion Cymunedol, Tate & Lyle

10. Prif Ddysgu mewn Cymdeithas, Iechyd a Datblygiad

Bydd Prif Ddysgu mewn Cymdeithas, Iechyd a Datblygiad yn cynnwys y pedwar sector – iechyd, gofal cymdeithasol i oedolion, gweithlu'r plant a chyfiawnder cymunedol – a sut maen nhw'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- y sectorau yn eu cyd-destun – sy'n canolbwyntio ar y ffactorau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar y pedwar sector yng Nghymru heddiw
- egwyddorion a gwerthoedd ar waith – y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i arferion pawb ar draws y sectorau ac sy'n cyfrannu at yr arferion hyn, gan sicrhau bod yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ganolog i'r ddarpariaeth
- gweithio mewn partneriaeth – mae arferion gweithio newydd yn golygu gall gwasanaethau gydweithio'n agosach er mwyn sicrhau safon, mwy o hyblygrwydd a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon er mwyn cefnogi a darparu gwasanaethau; er enghraifft, mewn canolfannau i deuluoedd, bydd pobl o'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd a phlant oll yn gweithio er mwyn sicrhau gwasanaethau integredig ac o safon i blant a theuluoedd
- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth – mae cyfathrebu da yn hanfodol i bobl sy'n gweithio ar draws y sectorau; beth yw'r rhwystrau o ran cyfathrebu'n dda, sut gellir eu goresgyn ac a oes tensiynau rhwng rhannu gwybodaeth a chyfathrebu'n dda â gweithwyr proffesiynol eraill a pharchu preifatrwydd unigolion
- datblygiad personol a phroffesiynol yn yr amgylchedd gwaith – mae gallu pwyso a mesur eich arferion eich hun yn elfen hollbwysig o ddatblygiad personol; beth wnaethoch chi'n dda, beth allech chi wella, sut gallwch chi wella eich arferion eich hun
- diogelu ac amddiffyn unigolion a chymdeithas – mae pobl yn y sectorau hyn yn aml yn gweithio gyda'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac mae'n bwysig deall beth sydd angen gwneud er mwyn sicrhau bod y bobl hyn yn cael eu cadw'n ddiogel.

"Mae'r ymagwedd hon yn rhoi hyder i gyflogwyr y bydd pobl ifanc yn deall ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at waith eu sefydliadau."

Martin Narey, Prif Weithredwr Barnardos

11. Prif Ddysgu mewn Teithio a Thwristiaeth

Bydd Prif Ddysgu mewn Teithio a Thwristiaeth yn cyflwyno'r dysgwyr i feysydd eang ac amrywiol y sector hwn. Maen nhw'n cynnwys gwasanaethau teithio, gwasanaethau twristiaeth, cynadleddau a digwyddiadau, atyniadau i ymwelwyr, bysiau, trenau a choetsis, a hedfan. Bydd y dysgwyr yn ennill y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen mewn amgylchfyd busnes sy'n newid yn gyflym ac sydd yn heriol, yn ddeinamig ac yn fyd-eang. Dylai hyn ysgogi a chaniatáu pobl ifanc i ffurfio barn gytbwys am yrfaoedd posibl a'r llwybrau dilyniant yn y sector teithio a thwristiaeth heddiw ac yn y dyfodol.

Bydd Prif Ddysgu yn:

- hybu a chefnogi cynaliadwyedd ar draws y sector
- cynnwys diwylliant lleol ac ar yr un pryd yn meithrin persbectif rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang
- cadw golwg ar y cydbwysedd rhwng datblygiadau newydd megis rhai ym meysydd cludiant cyhoeddus ac atyniadau newydd â threftadaeth ddiwylliannol a gwerthoedd moesegol a moesol
- datblygu'r gallu i adnabod materion amgylcheddol heddiw ac yn y dyfodol, ac ymateb iddyn nhw
- hybu'r gallu i gystadlu ochr yn ochr â diwylliant o ofalu am unigolion a'u hamgylchedd naturiol ac adeiledig
- canolbwyntio ar bobl, naill ai cyflogeion neu gwsmeriaid, a chydnabod pwysigrwydd gwasanaethu'r cwsmer mewn amgylchfyd busnes.

"Bydd cyflogwyr ym maes teithio a thwristiaeth yn chwilio'n gynyddol i gyflogi ymgeiswyr sydd â'r gymysgedd iawn o gyrhaeddiad academaidd, gwybodaeth o'r sector a gwerthfawrogiad o'r sgiliau gwaith sydd eu hangen. Mae'r Cymhwyster Prif Ddysgu mewn Teithio a Thwristiaeth yn gam pwysig i gyflawni'r angen hwn."

Ian Mousner, Cyfarwyddwr Gwerthiant, Superbreak

"Mae'r Cymhwyster Prif Ddysgu mewn Teithio a Thwristiaeth yn cynnig cyfle gwych i bobl ifanc ennill cymhwyster gwerthfawr, sy'n cynnig profiad newydd a chyffrous o ddysgu mewn partneriaeth â chyflogwyr. Mae'n elfen allweddol mewn llwybr sydd â strwythur da ar gyfer symud ymlaen i waith, neu addysg bellach ac uwch."

Jane Burke, Cyfarwyddwr AD y Grŵp, Shearlings Group

12. Prif Ddysgu mewn Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd Prif Ddysgu mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn amlygu sut mae'r sector fywiog, amrywiol a gwerthfawr hon yn gweithio. Bydd y dysgwyr yn darganfod sut mae sefydliadau sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yn gweithredu ac yn dod i ddeall y gwerthoedd cymdeithasol sy'n eu cynnal. Nid yw'r gwasanaethau cyhoeddus o angenrhaid yn golygu gweithio o fewn llywodraeth chwaith. Mae llawer o'r 5.5 miliwn o bobl sydd yn gweithio yn y sector ar hyn o bryd yn gweithio mewn busnesau preifat neu yn y sector wirfoddol. Mae'r Cymhwyster Prif Ddysgu'n cyflwyno'r dysgwr i ehangder y sector a'r gyrfaoedd sydd ar gael ynddi a bydd hyn yn apelio at bobl sydd am wneud gwahaniaeth i fywydau unigolion a chymunedau.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- llywodraeth leol – meysydd megis cynllunio, iechyd yr amgylchedd, safonau masnach, a chynhyrchu incwm
- iechyd strategol – meysydd sy'n cynllunio sut i ddefnyddio arian, lle i wario neu arbed arian, ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus
- llywodraeth ganolog – y gwasanaeth sifil yn yr holl adrannau gwahanol
- tai ac adfywio – tai cymdeithasol, digartrefedd, rhaglenni datblygu cymunedol
- Gwasanaethau Arfog – y Fyddin, y Llu Awyr a'r Llynges, y rhai nad sy'n gwisgo lifrai (e.e. caffael, gweinyddu ac ati) yn ogystal â'r rhai rheng flaen
- hamdden, diwylliant a dysgu gydol oes – llyfrgelloedd, dysgu, amgueddfeydd ac orielau, canolfannau hamdden
- cyfiawnder a'r gwasanaethau brys – llysoedd, gwasanaeth y carchardai, tân ac achub, yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans.

"Mae'r Cymhwyster Prif Ddysgu mewn Gwasanaethau Cyhoeddus newydd a chyffrous wedi cyrraedd! Mae'r cymhwyster hwn, a ddatblygwyd ar y cyd gyda chyflogwyr ar draws y sector cyhoeddus, ar gael fel dewis o fewn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac mae'n rhoi'r sgiliau i ddysgwyr fydd angen arnyn nhw ar gyfer dilyn gyrfa mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cymhwyster yn rhoi profiadau i ddysgwyr o amrywiaeth eang y sector cyhoeddus a bydd hynny'n rhoi cyfle a dealltwriaeth iddyn nhw o swyddi gwahanol."

Siân Morgan, Rheolwr Cymru, Skills for Justice

13. Prif Ddysgu mewn Chwaraeon a Hamdden Heini

Bydd Prif Ddysgu mewn Chwaraeon a Hamdden Heini yn cyflwyno amrediad eang y meysydd o fewn y sector. Mae'r rhain yn cynnwys chwaraeon cystadleuol yn ogystal â meysydd eraill fel cerdded, dringo, iechyd a ffitrwydd, gwaith chwarae, rheoli stadiwm, arwynebau ar gyfer chwaraeon, meysydd carafannau a chanolfannau hamdden. Nid bwriad y cymhwyster yw cynhyrchu athletwyr o safon ryngwladol ac nid yw'n angenrheidiol i chi gymryd rhan weithredol. Gall y cymhwyster hwn fod yn ddewis da i'r rhai sy'n mwynhau dysgu mewn ffordd ymarferol ac sydd â diddordeb yn y diwydiant.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- yr unigolyn – ymchwilio pa mor bwysig yw byw bywyd gweithgar ac iach, yn ogystal â sut mae'r corff yn gweithio ac effaith dewisiadau afiach fel smygu neu gamddefnyddio sylweddau
- y diwydiant – dysgu am y diwydiant chwaraeon a hamdden heini; dysgu am bwy sy'n gweithio ynddo, gan gynnwys clybiau chwaraeon, colegau arbenigol, noddwyr masnachol ac asiantaethau ariannu fel Chwaraeon Cymru a'r Loteri Genedlaethol
- y gymuned – dysgu pam mae'r diwydiant chwaraeon a hamdden heini yn cael ei ddisgrifio fel un sy'n 'canolbwyntio ar bobl', a meithrin y sgiliau hollbwysig gwasanaethu cwsmeriaid a chreu perthnasoedd y bydd angen i lwyddo yn y diwydiant.

"Mae Parasport yn gefnogwr brwd o'r Cymhywster Prif Ddysgu mewn Chwaraeon a Hamdden Heini, sy'n rhoi cyfle newydd i bobl ifanc anabl a'r rhai nad sy'n anabl i gymryd rhan yn y sector chwaraeon, trwy gyfuno cymryd rhan yn gorfforol gyda dealltwriaeth theori. Y cyfuniad yma sy'n eu gwneud nhw'n gyflogadwy yn y dyfodol, tra'n sefydlu gwerthoedd craidd chwaraeon o'r gwraidd drwyddo i bencampwyr athletaidd a'r dylanwad gall gael ar fywydau pobl."

Nick Heyworth, Rheolwr Cenedlaethol, Parasport

"Rwy'n siŵr bydd y cymhwyster hwn yn annog mwy o bobl i fyd addysg ac i'r diwydiant eang ac amrywiol hwn. Gallan nhw brofi cymaint o feysydd eang ym myd chwaraeon a hamdden a thrwy hynny tyfu mewn personoliaeth, datblygu eu potensial a dod yn weithwyr gwerthfawr."

Paul A Clarkeson, Prif Weithredwr Kangoo Jumps UK

14. Prif Ddysgu mewn Busnes Manwerthu

Bydd Prif Ddysgu mewn Busnes Manwerthu yn mynd â'r dysgwyr o lawr y siop a thu ôl i'r cownter i archwilio pob cam o'r broses fanwerthu – o darddiad nwyddau, eu cyflenwi a'u gwerthu. Bydd y dysgwyr yn ennill llawer o brofiad ymarferol ac yn datblygu'r hyder, yr ysgogiad, y mentergarwch a'r creadigrwydd sydd eu hangen i ffynnu yn yr amgylchfyd hwn sy'n newid yn barhaus. Bydd hefyd yn eu helpu nhw i ddeall beth sydd ei angen er mwyn sefydlu a rhedeg eu busnes eu hun.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- gweithgareddau manwerthu – sy'n edrych ar gaffael cynnyrch, marsiandïaeth, rheoli stoc, gwerthu a gwasanaethu'r cwsmer
- rheoli busnes – sy'n edrych ar farchnata, strategaethau ar gyfer newid, adnoddau dynol a deinameg tîm
- y gadwyn gyflenwi – sy'n edrych ar daith cynnyrch o'i darddiad drwy'r broses gludo a storio hyd nes y gwaredir fe, gan gynnwys ailgylchu
- creadigrwydd a dylunio – sy'n edrych ar gynllun siopau a gwerthu trwy ddulliau gweledol.

Bydd yr holl feysydd hyn yn rhoi sgiliau a gwybodaeth drosglwyddadwy, megis ymdrin â phobl, technoleg, sgiliau gweinyddu busnes, diogelu pobl a gwarchod eiddo i ddysgwyr. Byddan nhw hefyd yn dysgu am y materion ehangach megis globaleiddio, cynaliadwyedd ac ystyriaethau moesegol ac amgylcheddol.

"Mae manwerthu yn cynnig llawer o ddewisiadau a chyfleoedd a gall gyrfa yn y sector hwn ddilyn nifer o lwybrau. Mae'r diwydiant yn amrywiol, yn llawn her ac yn hwyl. Dydy dau ddiwrnod byth yr un fath ym myd manwerthu."

Belinda Earl, Prif Weithredwr Jaeger ac Aquascutum

"Rwy'n wrth fy modd bod dysgwyr yng Nghymru am gael y cyfle i astudio Busnes Manwerthu. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc ganfod yn uniongyrchol, yr amrywiaeth eang o yrfaoedd a gynigir gan fanwerthu."

John King, Prif Weithredwr House of Fraser

Beth am i ni gael sylwadau gennych am Gymwysterau Prif Ddysgu neu Gymhwyster Bagloriaeth Cymru

Os oes gennych unrhyw sylwadau am Gymwysterau Prif Ddysgu neu Gymhwyster Bagloriaeth Cymru bydden ni'n falch iawn o glywed oddi wrthych. A fyddech gystal â chysylltu â ni drwy e-bostio **wbq-cbc@wales.gsi.gov.uk** neu **info@bagloriaethcymru.org.uk**

Gwybodaeth bellach

Cewch ragor o fanylion drwy fynd ar wefan Bagloriaeth Cymru neu wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.
www.bagloriaethcymru.org.uk www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Neu drwy e-bostio **wbq-cbc@wales.gsi.gov.uk** neu **info@bagloriaethcymru.org.uk**

Ffôn: 029 2026 5010 Ffacs: 029 2057 5995

Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiolch i fyfyrwyr Bagloriaeth Cymru, sefydliadau addysg uwch a chyflogwr ar draws Cymru y tynnwyd eu lluniau ac a ddyfynnwyd ar gyfer y deunyddiau hyn.

Diolch hefyd i'r rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ddefnyddio delweddau â hawlfraint yn y deunyddiau hyn.

CYMHWYSTER BAGLORIAETH CYMRU | WELSH BACCALAUREATE QUALIFICATION

CBAC WJEC

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ISBN: 978 0 7504 5938 9
Cyf: CAD/GM/0152
© Hawlfraint y Goron 2011

bagloriaethcymru.org.uk